**EMYR WYN JONES a chyfraniad yr estron i sglein yr Orsedd**

# Oll yn eu gynau amryliw

**Hufen darlith Cymdeithas Bob Owen a draddodwyd yn y Brifwyl yn Aberystwyth i ddathlu Daucanmlwyddiant yr Orsedd ar fyr rybudd gan y meddyg hynaws yn absenoldeb Geraint Bowen oherwydd gwaeledd.**

MAE OCHR hanesyddol yr Orsedd wedi ei diogelu eisoes. Yn gyntaf, dyna gyfrol fawr safonol Geraint a Zonia Bowen — *Hanes yr Orsedd* — a gyhoeddwyd y llynedd; ac fe ddilynwyd hon eleni gan gyfrol gywasgedig Geraint — *Golwg ar Orsedd y Beirdd* — mae'r ddau lyfr yn glasuron na ddisodlir mohonynt.

Yn ogystal mae astudiaethau helaeth yr Athro Hywel Teifi Edwards o Eisteddfodau Oes Fictoria yn dra gwerthfawr a dadlennol. Yn ysgod wythnos yr Eisteddfod y daeth cyfrol Saesneg Dillwyn Miles — *The Secret of the Bards*, cymwynas fuddiol iawn — allan o'r wasg. Erbyn hyn nid oes gan neb esgus dros beidio â bod yn hyddysg yn hanes Gorsedd y Beirdd.

Roedd arwyddocâd yr helaethrwydd ffeithiol yma yn amlwg i bawb, ond roedd yn llethol felly i mi yn fy mhenbleth wrth chwilio am agwedd addas — a newydd — o'r stori. Rhwng popeth roedd yn ymddangos fel pe bai'r cnwd toreithiog o hanes yr Orsedd wedi ei gywain yn ddiogel i'r ysgubor. Tybed a adawyd ambell dywysen lawn ar y llawr dyrnu ar ôl y nithio? Nid oeddwn yn obeithiol iawn.

* * * *

UCHAFBWYNT gweithgareddau'r Orsedd yw'r ymgynulliad ar lwyfan yr Eisteddfod, a'r seremoniau *gweladwy* sy'n ennyn cymaint o ddiddordeb ac edmygedd. Sicrhau'r elfen yma yw nod yr holl ddarpariaethau. Mae'r ddefod urddasol wedi'i chymhennu a'i chaboli, a champwaith ydyw yn awr yn dilyn datblygiad graddol yn ystod y can mlynedd diwethaf.

Pan edrychwn ar y darluniau o'r Orsedd a'r Gorseddogion yn ystod y cyfnod cynharach, roedd y sefyllfa yn un anrhefnus iawn ar adegau — yn llanastr mewn gwirionedd. Daeth stori'r trawsnewid — neu'r gweddnewidiad os mynner — yn destun i'r ddarlith hon.

Go brin y medrai Iolo ei hun, er mor helaeth ei ddoniau ac mor ddiderfyn ei ddychymyg, ddirnad y modd y byddai'r Gorseddau cynnar yn ymagor i'r hyn a welir yn awr. Rwy'n tybio y byddai'n cymeradwyo'r ddefod liwgar orffenedig bresennol sy'n gwarantu fod y Pafiliwn mawr yn orlawn i'r Cadeirio a'r Coroni — ac eleni am y tro cyntaf i anrhydeddu'r Prif Lenor.

Personoliaeth ac arweiniad yr Archdderwydd ei hun, wrth gwrs, yw'r elfen bwysicaf, ond mae'r regalia ffurfiol a'r gwisgoedd lliwus yn dra gwerthfawr — yn sylfaenol ac yn symbolaidd — er cynnal harddwch ac urddas y ddefod. Daeth prif eitemau'r regalia i fodolaeth yn ystod y ddeng mlynedd olaf o'r ganrif ddiwethaf.

* * * *

TEIMLAD chwithig oedd sylweddoli mai'r cyntaf i amgyffred yr angen am regalia teilwng ar gyfer yr Orsedd, a mwy na hynny a fanteisiodd — o'i wirfodd — ar y cyfle i ddilyn ei weledigaeth mewn dull ymarferol, oedd gŵr yn dwyn yr enw **Hubert Herkomer**.

Roedd ei gyfraniadau yn hael ac allweddol. Dyluniodd wisgoedd y Gorseddogion yn 1894, ac yn 1896 dyluniodd Urddwisg yr Archdderwydd, ac fe gynhyrchodd â'i law ei hun y Goron a'r Ddwyfronneg yn ogystal. Roedd y rhain o aur pur ar wahân i'r dail o amgylch y goron.

Erbyn Eisteddfod Caerdydd yn 1899 roedd Herkomer wedi saernïo'r Cleddyf Mawr seremonïol a'i gyflwyno'n anrheg i'r Orsedd, ac yno y defnyddiwyd y cleddyf am y tro cyntaf, yn yr 'Orsedd wychaf a gynhaliwyd ers rhai canrifoedd'.

Pwy oedd Hubert Herkomer, yr estron hael? Mae'n amlwg nad oedd tinc Gymreig i'w enw. Daeth yn eglur hefyd nad yw Cymru, na hyd yn oed y Gorseddogion selocaf, yn gwybod fawr ddim am eu cymwynaswr dawnus a haelfrydig.

Trodd yr anwybod yn symbyliad imi. Daethpwyd o hyd i stori eithriadol o gymhleth a diddorol, ond y mae'n rhaid bodloni ar amlinelliad yn unig o'i rhediad cyffredinol, a chanolbwyntio yn hytrach ar gysylltiadau Herkomer â Chymru.

Ganwyd Hubert yn 1849, yn unig fab Lorenz Herkomer, saer a cherfiwr coed medrus iawn, ym mhentref bychan Waal yn Ne Bavaria. Ymfudodd y teulu bach gwerinol i'r Unol Daleithiau am gyfnod cyn ymsefydlu yn Lloegr pan oedd Hubert tua wyth mlwydd oed. Roedd y teulu mewn cyflwr tlodaidd iawn gan nad oedd fawr neb yn awyddus i brynu crefftwaith y tad, nac yn fodlon anfon eu plant — er mor bitw y ffi — am wersi piano gyda'r fam.

Gorfu i'r bachgen Hubert wynebu rhagfarn hiliol greulon yn yr ysgol, oblegid roedd yn amlwg nad Sais bach mohono. Yn bedair ar ddeg dechreuodd gwrs o astudiaeth mewn ysgol gelf yn Southampton, ond roedd ei dad wedi rhoi hyfforddiant ymarferol a gwerthfawr iddo cyn hynny.

Gwelwyd yn fuan fod Hubert yn meddu ar ddoniau llachar fel crefftwr ac arlunydd. Datblygodd yn gyflym, ac yng nghyflawnder yr amser daeth yn adnabyddus iawn ym Mhrydain, Ewrop a'r Unol Daleithiau. Tyfodd yn polymath gwirioneddol — teilwng o gyfnod y Dadeni.

Roedd ei waith yr un mor odidog pan oedd yn paentio mewn olew neu ddyfrlliw, gyda thirluniau neu bortreadau; roedd hefyd yn llin-gerfiwr cywrain. Tu allan i'w briod faes roedd yn awdur, yn gerddor, yn gyfansoddwr operâu ac yn actor ar lwyfan; ac nid dyna'r cwbl o bell ffordd!

Gofalai Herkomer am Ysgol Hyfforddiant Celf yn ei gartref ym mhentref Bushey, nid nepell o Lundain, a'i amcan oedd addysgu a symbylu arlunwyr ifanc addawol. Am gyfnod o naw mlynedd, o 1885 hyd 1894, efe oedd yr Athro Slade yn y Celfyddydau Cain yn Rhydychen. Etholwyd ef yn Gymrawd o Goleg yr Holl Eneidiau yno, ac fe ddaeth yn Academydd Brenhinol pan nad oedd ond deugain mlwydd oed.

Ymhen amser rhoddwyd iddo raddau Doethur Er Anrhydedd gan Brifysgolion Caergrawnt a Rhydychen. Anrhydeddwyd ef gan Gymdeithasau Celfyddydol mewn nifer sylweddol o wledydd Ewrop. Yn yr Almaen, ei wlad enedigol, ychwanegwyd yr uchelradd 'von' ar ei enw, a gwnaethwyd ef yn farchog ym Mhrydain yn 1907.

* * * *

DYNA enghraifft nodedig o fachgen tlawd yn trechu cyni a goresgyn anawsterau ar y ffordd i gyrraedd y brig yn ei alwedigaeth, ond beth sydd a wnelo hyn â Chymru? Paham y daeth gŵr mor amryddawn a chosmopolitan â Hubert Herkomer i ymddiddori yng Ngorsedd y Beirdd? Paham y bu i Almaenwr, a oedd wedi sicrhau lle mor ddiogel a pharchus yn y sefydliad — yr *'establishment'* — yn Lloegr, gymryd sylw o'r Eisteddfod Genedlaethol? Paham y bu iddo ef o bawb 'Estyn Cyfraniad Estron' i'r Brifwyl?

Mae ymddygiad cymwynasgar Herkomer yn destun mwy o syndod fyth pan gofiwn am agwedd sarhaus Lloegr yr adeg honno tuag at Gymru. Dim ond ychydig o flynyddoedd cyn hyn bu'r *Times* yn taranu, a rhag colli mymryn o effaith yr atgasedd haerllug ni chyfieithir y dyfyniadau. Oni chroniclir hwy nid oes modd i ni heddiw amgyffred y trahauster ffiaidd a fodolai mewn rhai cylchoedd dros y ffin. Meddai'r *Times*:

> *The Welsh language is the curse of Wales . . . An Eisteddfod is one of the most mischievous and selfish pieces of sentimentalism which could possibly be perpetrated . . . It (yr Eisteddfod) is simply a foolish interference with the natural progress of civilisation . . . The sooner all Welsh specialities disappear from the face of the earth the better.*

Dyma ddyfyniad cyfoes arall o'r un natur, ond nid o'r *Times* y tro yma:

> *The sooner the Welsh language disappears as an instrument of the practical, political and social life of Wales, the better . . . Traders and tourists do excellent service by*

/ dud. 19


## AR WERTH

***Welsh tribal law and custom in the Middle Ages;*** *T. P. Ellis. Oxford: Clarendon Press, 1926. 2 gyfrol.*

***A Celtic Miscellany — translations from the Celtic Literatures;*** *Kenneth Hurlstone Jackson. London: Routledge and Kegan Paul, 1951.*

**Cofiant Thomas Gee;** *Thomas Gwynn Jones. Dinbych: Gee a'i Fab, 1913. 2 gyfrol.*

**The *Myvyrian* Archaiology of Wales . . .;** *Owen Jones, Edward Williams, William Owen Pughe. Denbigh: Thomas Gee, 1870.*

**Pattrwm y Gwir Gristion;** *o gyfieithiad W. M. A. B.: dan olygyddiaeth H. Elvet Lewis. Bangor: Jarvis & Foster, 1908.*

**Geiriadur Beiblaidd;** *dan olygyddiaeth Thomas Rees, D. Francis Roberts, J. T. Evans, David Williams, Ifor Williams. Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1926. 2 gyfrol.*

**The Welsh People . . .;** *John Rhys and David Brynmor-Jones. 2nd and revised ed. London: T. Fisher Unwin, 1900.*

***Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd . . .;*** *Stephen J. Williams. J. Enoch Powell. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1942. Hefyd dau gopi o argraffiad 1961.*

**Y Gwyddoniadur Cymreig:** *Cyfrolau i (1856); ii (1890), iv (1890), vi (1892) a vii (1892).*

**Bulletin of the Board of Celtic Studies;** *Cyfrolau XIII rhan iv (Mai 1950); XVII rhan iii (Tachwedd 1957); a rhan IV (Mai 1958); XVIII rhannau i-iv (Tachwedd 1958-Mai 1960); XXI rhannau i-iv (Tachwedd 1964-Mai 1966) a XXIV rhannau i-iv (Tachwedd 1970-Mai 1972; XXVIII rhannau i-iv (Tachwedd 1976-Tachwedd 1977).*

**Mrs ENID JENKINS, Brynderw, 69 Bethel Road, Llansamlet, Abertawe SA7 9QL. Ffôn: 0792 794331.**